


# CYLCHLYTHYR 20.12.24

## Sioeau Nadolig

Diolch enfawr i bob un ohonoch daeth i gefnogi ein disgyblion wrth iddyn nhw berfformio eu sioeau Nadolig. Mae cyfle i berfformio'n fyw o flaen cynulleidfa yn werthfawr iawn ac yn brofiad bydd yn siŵr o aros gyda'r plant. Gwerthfawrogwyd eich help wrth baratoi'r plant gyda gwisgoedd, dysgu geiriau  ac ymarfer canu. Rhaid hefyd rhoi neges o ddiolch i'r staff arbennig am ei hymroddiad a'i hymdrechion wrth greu, sgriptio, cyfansoddi, cynhyrchu a llwyfannu'r sioeau, heb sôn am gamu i mewn gyda'r actio pob hyn a hyn. Diolch!

Hoffwn hefyd ddiolch i'r Parchedig Jan Gould am gynnig Eglwys yr Atgyfodiad yn Nhrelái i ni ar gyfer Gwasanaeth y Dysgwyr Iau.  Roedd yn lleoliad arbennig ac rydym yn lwcus i'w gael yn ein cymuned.

## Ffrindiau Ysgol Coed-y-Gof

Mae'r ffrindiau wedi bod yn brysur dros ben yn ystod y tymor wrth gynnig disgo Calan Gaeaf, Ffair Nadolig, raffl a disgo 'Dolig.  Codwyd y swm rhyfeddol o £1,889!!!

Diolch twymgalon i bob un o'n gwirfoddolwyr gwych!

## Hwyl am y tro

Byddwn yn ffarwelio dros dro gyda Miss Bishop ar ddiwedd y Tymor wrth iddi ddechrau ar gyfnod mamolaeth.  Dymunwn bob lwc iddi ac yn edrych ymlaen at ei chroesawi nôl ar ddiwedd yr haf.

## Cwrs coginio i rieni a gofalwyr – a 'slow cooker' am ddim i bawb!

Beth am fanteisio ar y cyfle gwych yma gan Menter Cerydd i gynnig cwrs 4–wythnos o goginio ryseitiau blasus i'r teulu? Bydd pawb sy'n mynychu yn derbyn 'slow cooker' am ddim. **NID OES TAL AM Y CWRS**
Cysylltwch â'r ysgol mor fuan â phosib i fwcio eich lle neu anfonwch e-bost at jade@mentercaerdydd.cymru




## Nadolig Llawen

Hoffwn ddiolch i chi gyd am eich cefnogaeth i'r Ysgol eleni. Cafwyd nifer o weithgareddau ac ymweliadau yn ystod y Tymor. Hoffwn ddiolch i'r staff arbennig sydd wedi gweithio'n ddiffuant i ddarparu addysg a phrofiadau gwych i'r plant.



Mwynhewch y Nadolig ac edrychwn ymlaen at groesawi'r plant yn nôl i'r ysgol ar ddydd **Mawrth, 7fed o Ionawr 2025.**

## DYDDIADAU PWYSIG

| | |
|---|---|
| 06.01.25 | HMS Ysgol ar gau i ddisgyblion |
| 08.01.25 | Cwrs coginio i rieni 9:15 – 11:45 |
| 09.01.25 | Bore agored i ddisgyblion Derbyn Medi 2025 |
| 13.01.25 | Dyddiad cau ceisiadua ar gyfer Derbyn Medi 2025 |
| 15.01.25 | Cwrs coginio i rieni 9:15 – 11:45 |
| 16.01.25 | Twrnamaint pêl-rwyd cymysg bl 5 & 6 yr Urdd |
| 16.01.25 | Sesiwn galw-mewn gyda'r nyrs ysgol Anna Nicol, Ystafell gymuned, 9-11yb |
| 17.01.25 | Gweithdy "Gwobrau, sancsiynau a chanlyniadau" i rieni gyda Gareth Jones, Athro arbenigol lles a iechyd emosiynol |
| 22.01.25 | Cwrs coginio i rieni 9:15 – 11:45 |
| 29.01.25 | Cwrs coginio i rieni 9:15 – 11:45 |
| 06.02.25 | Twrnamaint pêl-rwyd merched bl 5 & 6 yr Urdd |
| 11.02.25 | Cyfarfod Llywdoraethwyr |
| 18.02.25 | Cefnogi plentyn sydd ag anghenion iaith a lleferydd – gweithdy i rieni gan athro arbenigol iaith a lleferydd, Sarah Smitham |
| 24.02-28.02.25 | GWYLIAU HANNER-TYMOR |